

Ffurflen Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwybodaeth am y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad sy'n cael ei asesu

Beth sy'n cael ei asesu?	<input type="checkbox"/>	Swyddogaeth
	<input type="checkbox"/>	Polisi
	<input checked="" type="checkbox"/>	Prosiect
	<input type="checkbox"/>	Penderfyniad
Teitl y swyddogaeth, polisi, prosiect neu benderfyniad	Ymchwiliad ehangach ar ei liwt ei hun – cael mynediad at drefniadau cwyno ar gyfer Gofalwyr Di-dâl	
Beth yw nod y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn?	<p>Nod yr ymchwiliad yw edrych ar hygyrchedd prosesau cwyno gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yng Nghymru gyda'r bwriad o wneud argymhellion os canfyddir tystiolaeth o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth i rannu'r hyn a ddysgwyd a gyrru gwelliannau.</p> <p>Bydd yr ymchwiliad hefyd yn tynnu sylw at unrhyw dystiolaeth o arfer da i rannu arferion o'r fath ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Mae'r broses ymchwilio ehangach ar ei Liwt ei Hun yn cynnwys 3 cham:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Diffinio ffocws yr ymchwiliad gan gynnwys drwy ymgynghoriadau cyhoeddus 2. Ymchwiliad 3. Llunio argymhellion a rhannu canfyddiadau <p>Mae'r Aseiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn berthnasol i gam 1.</p>	
Ar bwy mae'r swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn effeithio?	<ul style="list-style-type: none"> • Aelodau o'r cyhoedd sy'n Ofalwyr Di-dâl neu sy'n derbyn gofal gan Ofalwyr Di-dâl • Cyrff Perthnasol – Byrddau Iechyd y GIG, Awdurdodau Lleol • Rhanddeiliaid trydydd parti – Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Comisiynydd Plant, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 	

	Comisiynydd Pobl Hŷn, Archwilio Cymru, Gofalwyr Cymru, Elusennau	
Gyda phwy y dylid ymgynghori ynghylch y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn?	Yr holl randdeiliaid uchod	
Pwy sy'n cynnal yr asesiad effaith hwn?	Sarah Jones – Swyddog Arweiniol ar ei Liwt ei Hun Ania Rolewska – Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	
	Dyddiad: 01/03/2023	Fersiwn: 3.0

Sgrinio cychwynnol

Cwestiwn	Y	N	Os yw'r ateb yn 'YDY', eglurwch pam yn gryno
A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n swyddogaethau neu feysydd gwaith o fewn y swyddogaethau hynny y mae'r AEG wedi nodi effeithiau ar gydraddoldeb ar eu cyfer?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae pob OI yn unigryw ac ni chafwyd Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o'r blaen mewn ymchwiliad tebyg. Fodd bynnag, mae'r hyn a awgrymir yn yr ymchwiliad hwn yn awgrymu y gallai fod effeithiau ar gydraddoldeb ar y rhan fwyaf o grwpiau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Plant • Pobl hŷn • Pobl anabl • Pobl o leiafrifoedd ethnig • Gofalwyr (fel pobl sydd mewn perygl o anfantais economaidd-gymdeithasol)
A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n Hamcanion Cydraddoldeb?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nod Strategol 1 – Cyflawni Cyfiawnder Nod Strategol 2 – Hyrwyddo dysgu, gweithio i wella gwasanaethau cyhoeddus 2.3: Sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'r broses o gynllunio a gweithredu pwerau newydd OGCC
A oes risg y gallai'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn roi unrhyw grŵp o bobl dan anfantais?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac oes – mae'r prosiect hwn yn ceisio mynd ati'n weithredol i ganfod ffyrdd o leihau'r anfantais a brofir gan rai grwpiau a chanfod ffyrdd o gael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar rai grwpiau.

Os ydych chi wedi ateb 'ydy/oes' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, ewch ymlaen i'r asesiad effaith llawn.

Asesiad o Effaith

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
Ystyriaethau trawsbynciol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Ffocws yr ymchwiliad</p> <p>Mae'r ymchwiliad arfaethedig yn canolbwyntio'n benodol ar ofalwyr a sut mae awdurdodau lleol a chyrrff iechyd yn diwallu eu hanghenion. Mae'n ystyried hygyrchedd ac effeithiolrwydd prosesau asesu a chwynion ar gyfer gofalwyr. Os bydd yr ymchwiliad yn nodi meysydd i'w gwella, mae'r ymchwiliad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd y boblogaeth sy'n ofalwyr, yn ogystal â grwpiau a oedd yn cael eu cynrychioli'n dda ymysg y boblogaeth honno:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pobl dros 45 oed • Pobl anabl • Pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol • I raddau bach, pobl sy'n ystyried eu hunain yn fenywod <p>Mae llai o ddata ar gynrychiolaeth grwpiau eraill ymysg y boblogaeth o ofalwyr (gweler isod). Fodd bynnag, canfu'r dadansoddiad o'r dystiolaeth nifer o rwystrau a nodwyd gan ofalwyr di-dâl gydag un, neu gyfuniad, o'r nodweddion gwarchoddedig hyn. Mae lle i sicrhau bod yr ymchwiliad o fudd mwy cyfartal i'r poblogaethau eraill hyn hefyd.</p>	Gellir manteisio i'r eithaf ar yr effaith gadarnhaol ar y boblogaeth o ofalwyr yn ogystal â grwpiau cydraddoldeb eraill drwy dargedu awdurdodau lleol lle mae'r poblogaethau perthnasol wedi'u cynrychioli'n dda.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oedran	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Ffocws yr ymchwiliad</p>	Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib ar y boblogaeth hon, gallai'r ymchwiliad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
				Er bod ymchwil yn dangos bod cyfran o bobl ifanc iawn yn ymgymryd â dyletswyddau gofalu yng Nghymru, mae'n ymddangos bod gofawyr yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn 45-74, gyda phobl dros 55 oed yn cael eu cynrychioli orau.	<ul style="list-style-type: none"> dargedu ardaloedd lle mae'r boblogaeth hŷn (dros 65) yn cael ei chynrychioli'n dda: Powys, Conwy, ac Ynys Môn. cynnwys sylw i'r rhwystrau penodol sy'n wynebu'r boblogaeth o ofalwyr hŷn sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol yr Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â nhw, e.e. camau i liniaru diffyg ymddiriedaeth, pryderon ynghylch ansicrwydd ariannol a cholli annibyniaeth 			
Anabledd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ffocws yr ymchwiliad Mae'n ymddangos bod gofawyr yng Nghymru yn fwy tebygol o ddioddef o gyflyrau iechyd.	Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib ar y boblogaeth anabl, gallai'r ymchwiliad <ul style="list-style-type: none"> ganolbwyntio ar yr ALLau canlynol: Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili cynnwys sylw i'r rhwystrau penodol a wynebir gan ofalwyr anabl sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol yr Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â nhw, e.e. rhoi sylw i gymorth i ofalwyr sydd â'u cyflyrau iechyd eu hunain (gan gynnwys drwy ddarparu addasiadau rhesymol, er enghraifft ar gyfer gofawyr sydd â nam ar eu synhwyrau); cyngor ariannol a chymorth. 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhywedd (rhyw)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ffocws yr ymchwiliad		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
				Mae'n ymddangos bod gofalwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn fenywod. Fodd bynnag, gyda'r gyfran o ofalwyr sy'n ferched neu'n ddynion, nid yw'n sylweddol wahanol (4 pwynt canran). Mae'n golygu y byddai ymchwiliad sy'n canolbwyntio ar ofalwyr yn debygol o gael effaith ychydig yn fwy cadarnhaol ar boblogaeth menywod yn gyffredinol. Fodd bynnag, gallai'r effaith hon fod yn fwy arwyddocaol mewn poblogaethau lleiafrifoedd ethnig (gweler isod)				
Ailbennu rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ni welsom unrhyw ddata ar broffil hunaniaeth rhywedd gofalwyr yng Nghymru.		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Priodas a phartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn awgrymu effaith benodol y nodwedd cydraddoldeb hon ar ofalwyr di-dâl.		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Beichiogrwydd a mamolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn awgrymu effaith benodol y nodwedd cydraddoldeb hon ar ofalwyr di-dâl.		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Hil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Ffocws yr ymchwiliad</p> <p>Ni welsom unrhyw ddata cyfredol ar broffil ethnig gofalwyr yng Nghymru. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd gofalwyr Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn cynrychioli 2.5% o'r holl ofalwyr yng Nghymru. Roedd pobl o gymunedau 'Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig' yn cynrychioli 0.09% o'r boblogaeth gofalwyr di-dâl.</p> <p>Fodd bynnag, roedd ymchwil yn tynnu sylw at nifer o rwystrau manwl a oedd yn cael effaith negyddol ar brofiadau gofalwyr o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru.</p>	<p>Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib ar boblogaeth ethnig amrywiol, gallai'r ymchwiliad</p> <ul style="list-style-type: none"> ganolbwyntio ar yr ALLau canlynol: Caerdydd, Casnewydd a Bro Morgannwg. <p>Er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr effaith ar bobl o wahanol wledydd, gallai'r ymchwiliad</p> <ul style="list-style-type: none"> ganolbwyntio ar yr ALLau canlynol: Caerdydd, Wrecsam, Merthyr a Sir y Fflint (Pwyleg), Conwy (Gwyddelig), 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Ymchwiliad Ehangach ar ei Liwt ei Hun – Gofalwyr Di-dâl

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negydd ol	Niwtral	Cadarnh aol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
				Mae hyn yn golygu bod gan yr ymchwiliad botensial i gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwnnw.	<p>Casnewydd a Sir y Fflint (Romanaid) a Chaerdydd (Indiaidd a Tsieiniaidd)</p> <p>Yn gyffredinol:</p> <ul style="list-style-type: none"> cynnwys sylw i'r rhwystrau penodol a wynebir gan y boblogaeth ethnig amrywiol sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol yr Awdurdodau Lleol, e.e. camau i sicrhau bod cymunedau amrywiol yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael; camau i liniaru rhwystrau iaith, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod ac ati. 			
Crefydd neu gred	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Ni welsom unrhyw ddata diweddar a data ar gyfer Cymru'n unig ar broffil crefyddol gofalwyr yng Nghymru.</p> <p>Fodd bynnag, roedd ymchwil yn tynnu sylw at rai rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr sy'n dilyn crefyddau amrywiol.</p>	<p>Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib ar bobl sy'n dilyn crefyddau amrywiol, gallai'r ymchwiliad</p> <ul style="list-style-type: none"> gynnwys sylw i'r rhwystrau penodol a wynebir gan y boblogaeth hon sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol yr Awdurdodau Lleol, e.e. hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol o anghenion a dealltwriaeth ddiwylliannol o ofalu. 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfeiriadedd rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ni welsom unrhyw ddata ar broffil cyfeiriadedd rhywiol gofalwyr yng Nghymru.	Er mwyn cynyddu'r effaith ar y boblogaeth hon, gallai'r ymchwiliad gynnwys rhoi sylw i'r rhwystrau penodol y mae'r boblogaeth hon yn eu hwynebu sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol yr	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
				Fodd bynnag, roedd data ar y rhwystrau a allai wynebu pobl o gymunedau LHD+ wrth gael gafael ar gymorth.	Awdurdodau Lleol, e.e. camau i hyfforddiant ar ragfarn ddarwybod, mynd i'r afael â diffyg ymddiriedaeth, hyfforddiant ar faterion penodol a allai atal pobl yn y gymuned hon rhag cael gafael ar gymorth ac ati			
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ffocws yr ymchwiliad Ni welsom unrhyw ddata ar y defnydd o'r Gymraeg ar ofalwyr yng Nghymru. Nid oedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr ymchwiliad hwn yn tynnu sylw at effeithiau clir ar y Gymraeg a sut y gellir lliniaru neu wella'r effeithiau, y tu hwnt i ddim ond ychydig o gyfeiriadau at rai prinder aseswyr sy'n siarad Cymraeg (ydy hwn yn gywir?)	Gall yr ymchwiliad roi sylw i argaeledd a defnydd y broses asesu anghenion gofalwyr yn Gymraeg.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Nodweddion economaidd-gymdeithasol <ul style="list-style-type: none"> natur wledig incwm isel/dim incwm dyletswyddau gofalu 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ffocws yr ymchwiliad Dylai'r ymchwiliad dargedu ardaloedd sydd â chyfran uchel o'r boblogaeth o ofalwyr.	Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib ar y boblogaeth o ofalwyr, gallai'r ymchwiliad ganolbwyntio ar Gastell-nedd Port Talbot, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ffocws yr ymchwiliad Mae'n ymddangos bod anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar y boblogaeth o ofalwyr – lleoliad yn	Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib ar boblogaeth ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, gallai'r ymchwiliad ganolbwyntio ar Sir Ddinbych, Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Ymchwiliad Ehangach ar ei Liwt ei Hun – Gofalwyr Di-dâl

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhau			Negyddol	Niwtral	Cadarnhau
				<p>ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, byw mewn tai cymdeithasol a bod yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.</p> <p>Gallai'r ymchwiliad dargedu ardaloedd lle mae'r poblogaethau hyn yn cael eu cynrychioli'n dda.</p>	<p>Ogwr, Merthyr Tudful, Wrecsam, Casnewydd a Chaerdydd.</p> <p>Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib ar bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, gallai'r ymchwiliad ganolbwyntio ar Dorfaen, Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Wrecsam.</p> <p>Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib ar bobl ddi-waith, gallai'r ymchwiliad ganolbwyntio ar Sir Ddinbych, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili, Casnewydd a Wrecsam.</p>			

Cofnodwch y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i asesu effaith:

Poblogaeth gofalwyr

Ystadegau

[Iechyd, anabledd a darpariaeth gofal di-dâl yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\)](#)

[LLYW.CYMRU](#)


Yng Nghymru, roedd y gyfran a oedd wedi'i safoni gan oedran y bobl a oedd yn darparu unrhyw swm o ofal di-dâl yn 10.5%, gostyngiad o 13.0% yn 2011. Roedd tua thraean o'r boblogaeth hon yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos (107,000 o bobl).

Yr awdurdod lleol oedd â'r gyfran uchaf o bobl a oedd yn darparu unrhyw swm o ofal di-dâl oedd **Castell-nedd Port Talbot** (12.3%), a nododd hefyd y gyfran uchaf ar y cyd o bobl anabl. Castell-nedd Port Talbot oedd hefyd â'r gyfran uchaf o bobl a oedd yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos (4.5%) a phobl a oedd yn darparu rhwng 20 a 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos (2.9%).

Awdurdodau lleol eraill oedd â chyfran uchel o'r boblogaeth o ofalwyr oedd Pen-y-bont ar Ogwr, **Rhondda Cynon Taf**, **Merthyr Tudful**, **Caerffili**, **Blaenau Gwent**, Torfaen, Sir Gaerfyrddin a **Sir Ddinbych**.

Roedd cyfran safonedig yn ôl oedran y bobl a oedd yn darparu unrhyw swm o ofal di-dâl yn uwch yng Nghymru (10.5%) nag yn Lloegr (8.9%).

Figure 6: Age-standardised proportions of usual residents aged 5 years and over providing unpaid care by local authority in Wales, 2021



<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcarebyagesexanddeprivationenglandandwales/census2021>.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Ymchwiliad Ehangach ar ei Liwt ei Hun – Gofalwyr Di-dâl

Yn 2021, yng Nghymru, roedd y ganran uchaf o ofalwyr di-dâl ymysg unigolion rhwng 55 a 59 oed ar gyfer menywod a rhwng 55 a 64 oed ar gyfer dynion. Roedd y grwpiau oedran hŷn yn darparu'r oriau uchaf o ofal di-dâl. Roedd pobl ifanc (o dan 25) yn cynrychioli 7% o'r holl ofalwyr sy'n fenywod a 6.8% o'r holl ofalwyr sy'n ddynion. Roedd tua 8,200 o ofalwyr ifanc di-dâl (rhwng 5 ac 17 oed) yng Nghymru (1.8% o blant 5 i 17 oed).

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 9,076 o ofalwyr Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli 2.5% o'r holl ofalwyr yng Nghymru (Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl Asesiad or Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru <<https://www.llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal.html>>)

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd tua 320 o ofalwyr di-dâl hefyd yn dod o gymunedau 'Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig'. Roedd hyn yn cynrychioli 0.09% o'r holl ofalwyr di-dâl.

Y Rhwystrau

Rhwystrau i ofalwyr hŷn ([Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Llywodraeth Cymru](#))

- Gall pobl hŷn fod yn llai tebygol o uniaethu â'r term 'gofalwr di-dâl'.
- Roedd yr aros cychwynnol am asesiad yn bryder i rai pobl hŷn, ac mae eraill wedi teimlo eu bod wedi cael eu rhuthro neu fod gweithwyr proffesiynol wedi gofyn y cwestiynau anghywir.
- Mae rhai pobl hŷn yn ofni gadael i asiantaethau statudol ddod i'w bywydau am eu bod yn poeni y byddant yn colli rheolaeth ac annibyniaeth; y cânt eu gorfodi i fynd i gartref gofal, neu y byddant yn cael eu troi allan o'u cartref.
- Roedd pobl hŷn o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau penodol yn ymwneud â mynediad at gyngor a gwybodaeth, cyllid a deiliadaeth, preifatrwydd, urddas, diwylliant a gofal; a chysylltiadau â'r gymuned lleiafrifoedd ethnig.

Roedd canran uwch o bobl yn darparu gofal di-dâl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (cwintel 1, 11.5%) o'i gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (cwintel 5, 9.7%)

Rhwystrau i ofalwyr anabl ([Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Llywodraeth Cymru](#))

- I ofalwyr anabl, gall eu hanableddau eu hunain gael eu hanwybyddu, neu nid yw'r gofal y maent yn ei ddarparu i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt yn cael ei gydnabod bob amser.

- Yn ogystal â phobl ag anableddau presennol sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu, mae gofalywyr yn aml yn dweud eu bod yn datblygu cyflyrau iechyd meddwl a chorfforol yn ystod ac o ganlyniad i ofalu.
- Mae tystiolaeth yn cyfeirio at gyfuniad o anfantais ariannol i ofalwyr anabl a'r rheini sydd ag iechyd gwael: maent yn llawer llai tebygol o fod mewn gwaith neu mewn aelwyd sydd ag incwm o waith cyflogedig, yn llawer mwy tebygol o golli allan ar gymorth ariannol gyda gofalu ac yn fwy tebygol o fod yn wynebu mwy o ddyled a chaledi ariannol o ganlyniad
- Mewn ymateb i'n hymgyngoriad, nodwyd bod angen cymorth ychwanegol ar ofalwyr sydd â nam ar eu synhwyrau i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn sgysiau a phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch y person maen nhw'n gofalu amdano.

Rhwystrau i ofalwyr traws (Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Llywodraeth Cymru)

- Roedd y dystiolaeth yn gyfyngedig. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi tystiolaeth o brofiadau gofalywyr trawsryweddol, sy'n dangos bod gwasanaethau'n gallu bod yn anghyfarwydd â thrin cleifion trawsryweddol, bod staff yn gallu gofyn cwestiynau amhriodol neu ddangos diffyg hyder wrth gefnogi person trawsryweddol

Rhwystrau i ofalwyr LHD+ (Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Llywodraeth Cymru)

- Yn ôl adroddiad gan Stonewall yn 2015, mae un o bob ugain (5%) o staff yn y proffesiwn gofal cymdeithasol wedi gweld cydweithwyr eraill yn gwahaniaethu yn erbyn claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth neu'n darparu triniaeth salach oherwydd eu bod yn lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol yn ystod y pum mlynedd diwethaf
- Gall perthnasoedd teuluol breiniol esgeuluso gwahaniaethau mewn perthnasoedd gofal ac anwybyddu'r realiti cymdeithasol nad yw pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn efallai wedi datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol i aelodau o'r teulu ac felly efallai na fyddant yn ystyried teulu biolegol fel darparwyr gofal posib
- Mae rhai unigolion wedi dod ar draws tybiaethau normadol gan staff gofal iechyd ynghylch eu gallu tybiedig i ddarparu gofal i bartneriaid o'r un rhyw oherwydd eu perthynas agos
- Mae'r pryder sy'n bwrw cysgod dros ddatgelu perthynas o'r un rhyw i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn bryder sylfaenol i

ofalwyr sy'n lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol sy'n gallu rhwystro mynediad teg at wasanaethau

Rhwystrau i ofalwyr yn seiliedig ar eu crefydd:

- Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at y ffaith y gall gwasanaethau, o ran crefydd neu gred, fethu bod yn ddiwylliannol ymwybodol o wahanol anghenion; efallai na fydd gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod yn eang mewn rhai cymunedau a gall fod rhwystrau diwylliannol sy'n atal rhai cymunedau rhag cael gafael ar wasanaethau'n gyffredinol.

Rhwystrau ar gyfer gofalwyr lleiafrifoedd ethnig [Ymchwil i ofalwyr di-dâl yng Nghymru sy'n dod o leiafrif ethnig](#) (canlyniadau'r ymchwil [yma](#))

- Y thema gyffredinol yw 'diffyg perthynas' rhwng y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael ac anghenion gofalwyr di-dâl o gymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig.
- Mae rhwystrau ymarferol yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth o gefnogaeth, rhwystr iaith, diffyg cefnogaeth ddibynadwy gartref, heriau o ran diwallu anghenion diwylliannol unigolion dan sylw (fel sicrhau bod amser yn cael ei neilltuo ar gyfer gweddïo neu pan oedd prydau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio bwyd halal), diffyg dealltwriaeth o'r darparwr gwasanaeth (i'r ffordd y mae'r teulu'n byw eu bywydau yn gallu arwain at gamleoli a diffyg cyfathrebu)
- Mae diffyg hunaniaeth fel gofalwr yn golygu nad yw llawer o ofalwyr yn cael gafael ar gymorth. Ceir hefyd wahanol argraffiadau a dealltwriaeth o salwch a chyflyrau e.e. dementia ac awtistiaeth. Gellir deall y rhain fel rhan o'r cylch bywyd naturiol neu ymddygiad yn hytrach na mater meddygol.
- Gwahanol ddealltwriaeth a disgwyliadau diwylliannol fel canfyddiad ymysg rhai cymunedau gofal fel 'cyfrifoldeb teuluol', pwysau cymunedol i ymgymryd â gwaith gofal heb gwyno, rolau a chyfrifoldebau o ran rhywedd (gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith yn dal i gael ei wneud gan fenywod)
- Diffyg ymddiriedaeth mewn darparwyr gwasanaeth i gynnig cefnogaeth a phryderon priodol ynghylch rhagdybiaethau ymlaen llaw ynghylch cefndir ac argaeledd a pharodrwydd unigolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i allu darparu gofal.

Gofalu (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2019 - Mawrth 2020

<https://www.llyw.cymru/gofalu-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebryll-2019-i-fawrth-2020-html>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Ymchwiliad Ehangach ar ei Liwt ei Hun – Gofalwyr Di-dâl

Yn 2019-20, darparodd 29% o bobl gymorth neu gymorth di-dâl i eraill; gyda hanner y grŵp hwn yn gwneud hynny am fwy na phum awr yr wythnos.

Mae'r ffactorau canlynol yn gysylltiedig yn annibynnol â phobl sy'n gofalu am eraill (am fwy na 5 awr yr wythnos):

- yn 45 oed a hŷn
- yn fenyw (31% yn fenywod o'i gymharu â 27% yn ddynion)
- yn byw mewn tai cymdeithasol yn hytrach na bod yn berchen-feddiannydd
- yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru
- yn teimlo lefelau isel o foddhad gyda bywyd
- yn byw gyda salwch tymor hir sy'n cyfyngu arnynt
- yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar

Poblogaeth yn gyffredinol

Oedran

<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021>.

Yr ardaloedd yng Nghymru gyda'r canrannau uchaf o bobl 65 oed a hŷn oedd **Powys (27.8%), Conwy (27.4%) ac Ynys Môn (26.4%)**, a'r ardal â'r ganran uchaf o bobl 90 oed a hŷn oedd Conwy (1.5%).

Anabledd

[Iechyd, anabledd a darpariaeth gofal di-dâl yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\) LLYW.CYMRU](#)

Yn 2021, ar draws Cymru, roedd cyfran y bobl anabl yn 21.1% (670,000 o bobl).

Mae'r awdurdodau lleol sydd â'r cyfrannau uchaf o bobl anabl wedi'u crynhoi yng nghymoedd De Cymru (**Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili**). Mae'r rhain hefyd yn ardaloedd lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth o ofalwyr.

Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol

<https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html>

[Grŵp ethnig, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

Roedd cyfran y bobl yng Nghymru a nododd eu bod yn “Wyn” yn 93.8% (95.6% yn 2011). 0.1% (4000) yn nodi ethnigrwydd “Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig” yn y categori “Gwyn” lefel uchel.

- 2.9% yn Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig
- 1.6% yn nodi eu bod yn y categori grŵp ethnig lefel uchel "grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig"
- 0.9% yn nodi eu bod yn y categori grŵp ethnig lefel uchel “Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd”
- 0.9% o'r trigolion arferol yng Nghymru (26,000) yn nodi ethnigrwydd heb ei gynnwys yn y categorïau grwpiau ethnig lefel uchel eraill

Roedd y grwpiau ethnig amrywiol yn cael eu cynrychioli orau yng Nghaerdydd a Chasnewydd.

Roedd cenedligrwydd amrywiol yn cael eu cynrychioli orau yn Abertawe, Ceredigion a Wrecsam.

Amddifadedd economaidd-gymdeithasol

<https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diwedddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019>

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â chyfran uchel o ardaloedd wedi'u dosbarthu fel yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn cynnwys Abertawe, Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr.

Fodd bynnag, cafodd yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru eu canfod yn Sir Ddinbych, Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Wrecsam, Casnewydd a Chaerdydd.

Diweithdra

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/employmentrate-by-welshlocalarea-year>

Yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru sydd â chyfran uchel o bobl ddi-waith yw Sir Ddinbych, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili, Casnewydd a Wrecsam.

Tai Cymdeithasol

<https://www.llyw.cymru/tai-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html>

Yn 2021, Torfaen oedd â'r ganran uchaf o aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol (23.8%). Awdurdodau lleol eraill oedd â chyfran uchel o'r boblogaeth hon oedd Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Wrecsam.

Proffil o'n hachwynwyr

Lleoliad (yn seiliedig ar gwynion caeedig 2021/22)

Mae lleoliad ein cwynion caeedig yn 2021/22 yn awgrymu bod y crynodiad uchaf o achwynwyr yn dod o ardaloedd Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr, ac o gwmpas yr Wyddgrug yn Sir y Fflint a Wrecsam.

Roedd pocedi llai o grynodiad uwch o achwynwyr o gwmpas sawl tref, fel Caerffili a Merthyr Tudful.

Mae crynodiad ein hachwynwyr yn isel yn gyffredinol ymhellach i ffwrdd o drefi / dinasoedd ac yn isel iawn mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig yn y Canolbarth.

Cofnodwch unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd

Ymgysylltu â Gofalwyr Cymru
Ymgynghoriad cyhoeddus (9/01 - 6/02/2023)
Grŵp ffocws Gofalwyr Cymru (8/02/2023)

Adroddiad canlyniadau

Cam Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi'i gwblhau	<input checked="" type="checkbox"/>	Sgrinio cychwynnol
	<input checked="" type="checkbox"/>	Asesiad llawn
Crynodeb o'r effeithiau negyddol a nodwyd		
Penderfyniad	<input type="checkbox"/>	Bwrw ymlaen – dim newidiadau
	<input type="checkbox"/>	Bwrw ymlaen – angen gweithredu
	<input type="checkbox"/>	Peidio â bwrw ymlaen
Cynllun Gweithredu	Os oes angen cymryd camau i fwrw ymlaen â'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad, nodwch yma'r camau gweithredu, pwy sy'n gyfrifol amdanynt a phwy fydd yn monitro sut y cânt eu rhoi ar waith.	
	Awdurdodwyd gan	Dyddiad